

## Cyngor Ysgolion Sul: Cyhoeddi

Fel a nodir yn y Weithred Gyfansoddiadol, roedd 'Cyhoeddi llenyddiaeth, llyfrau, pamffledi, newyddiaduron, cylchgronau, adroddiadau, darluniau, ffilmiau yn yr iaith Gymraeg' yn un o brif amcanion y Cyngor (gweler Atodiad 1, 2(c)).

Cyfeiriwyd eisoes ym Mhennod 2 mai'r bwriad o'r dechrau oedd cyhoeddi cylchgrawn plant cydenwadol, ac ymddangosodd y rhifyn cyntaf o *Antur* ym mis Ionawr 1966 dan olygyddiaeth Jennie Eirian Davies. Felly, hyd yn oed cyn i'r Cyngor ddechrau gweithredu yn gyfreithiol roedd yn cyhoeddi'r cylchgrawn. Roedd delwedd arbennig i *Antur* o'r dechrau ac yn Hydref 1966 roedd nifer yr archebion yn 14,750, gyda 16,000 o gopiau yn cael eu hargraffu er mwyn cael ymgyrch hysbysebu. Ond mor fuan â Mawrth 1967 nodir bod y cylchrediad i lawr i 13,000, ac roedd y golygydd wedi torri ei chalon. Penodwyd y Parch. Harri Parri i'w holynu, ond nid ysgogodd hynny ychwaith gynydd yn y cylchrediad, oherwydd tua 9,000 oedd nifer yr archebion yn 1969. Bu gwahanol ymdrechion i geisio cydweithrediad cyfarwyddwyr addysg a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ond ni ddaeth gwaredigaeth o'r cyfeiriad hwnnw ychwaith. Sefydlwyd perthynas gyda Chymdeithas y Beibl a Chymorth Cristnogol o ran cynnwys ac yn ariannol, ond er hynny roedd pryder, ddiwedd 1969, fod *Antur* yn gwneud colled ariannol. Roedd dwy ffactor allweddol: cynnydd yn y costau argraffu a lleihad yn y cylchrediad.

Ddiwedd 1971 cyhoeddwyd llyfr anrheg oedd yn cynnwys storïau oedd wedi ymddangos yn *Antur* a bu llwyddiant i werthiant y gyfrol, ond roedd cylchrediad *Antur* erbyn hynny wedi gostwng i tua 7,000. Olynwyd y Parch. Harri Parri fel golygydd ym Medi 1972 gan y Parch Dafydd Henry Edwards. Nodwyd bod canmoliaeth i'r cylchgrawn gan athrawon a rhai oedd yn trefnu gwasanaethau i'r plant yn yr eglwysi. Er hynny, roedd y golled ariannol yn parhau, a hynny yn rhannol oherwydd bod costau argraffu yn cynyddu'n rheolaidd. Cyhoeddwyd taflenni ym Mawrth 1973 gan y Trysorydd yn dangos sut y newidiodd y sefyllfa o wneud elw o £1,290 yn 1967/8 i wneud colled o £753 yn 1972/3.

Wrth i'r golled gynyddu i oddeutu £1,000 yn 1974, bu nifer o ymdrechion i arbed y cylchgrawn, gan gynnwys apêl ar y BBC, a gynhyrchodd y swm o £221, a rhodd gan HTV o £100, yn ogystal ag ymgyrch gyhoeddusrwydd gan aelodau'r Cyngor. Yn wir, cynyddodd y cylchrediad o 500 ym mhob rhifyn, ond gwaeth a fynegwyd yn niwedd 1975 pan ddeallwyd bod y costau argraffu'n cynyddu'n sylweddol unwaith eto. Apeliwyd ar yr enwadau i gynyddu eu cefnogaeth ariannol, gan bwysleisio ymdrechion y Cyngor i ddiogelu'r unig cylchgrawn Cristnogol Cymraeg i blant. Ym mis Tachwedd 1975 gwerthfawrogyd y cyfraniadau ariannol a ganlyn: Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, £1,000; Cyngor Celfyddydau Cymru, £500; Cwmni Harlech, £100; Dydd Gwedd Chwirydd y Byd, £150, ac fe gyfrannodd Cymdeithas y Beibl, Cyngor Cenhadol Cymru a Chymorth Cristnogol hefyd £100 yr un. Gyda thymor y golygydd yn dod i ben a'r cylchrediad wedi codi i 7,719, roedd colled ariannol o £3,328 ar y flwyddyn.

Ym Medi 1977 daeth y Parch. Gareth Maelor Jones yn olygydd. Bu ailwampio ar y ddelwedd a'r cynnwys unwaith eto, gan gyhoeddi deg rhifyn yn lle'r 12 yr arferid eu cyhoeddi a chodi'r pris i 12c, a chanolbwyntio'n bennaf ar blant dan 11 oed, ac eithrio'r gwasanaethau. Er hyn, roedd yn dal yn golled yn ariannol ac roedd cyfanswm y golled rhwng 1973 ac 1978 yn £11,565, er bod y cylchrediad yn dal ei dir ac yn 7,000 y mis. Rhoddwyd sylw arbennig i *Antur* mewn cyfarfod ym Medi 1978 a gwnaed wyth o benderfyniadau, gan gynnwys apêl unwaith eto i'r enwadau i gefnogi'n ariannol. Bu ymateb cadarnhaol a hefyd derbyniwyd cefnogaeth sylweddol drwy gronfa a weinyddwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru. Ond roedd cyllido yn dal yn broblem yn wyneb costau argraffu cynyddol.

Erbyn 1982 roedd y cylchrediad wedi gostwng i 5,670 a'r golled yn £304 ar bob rhifyn, er bod 'canmol mawr i gynnwys a chyflwyniad y cylchgrawn' gyda golygydd bywiog. Er gwaethaf y safon wych ac amrywiol, parhau i ostwng yr oedd y cylchrediad. Crëwyd Mr Antur – cymeriad lliwgar a luniwyd yn benodol er mwyn marchnata a thynnu sylw (fe'i hadeiladwyd o bren ac roedd yn siglo o ochr i ochr mewn eisteddfodau a digwyddiadau eraill). Roedd y Cyngor Llyfrau yn parhau i gefnogi'n ariannol yn ogystal â chynnig syniadau am y diwyg, ond ni lwyddwyd i gynyddu'r gwerthiant. Bu sawl trafodaeth sut i adfer y sefyllfa yn y cyfnod 1984–6 ac erbyn Medi 1986 roedd diwyg newydd i'r cylchgrawn; sicrhawyd mwy o grant, câi ei ddylunio yn broffesiynol, cyhoeddiad naw rhifyn yn lle deg, a chodwyd y pris i 30c yn lle 20c, gyda'r gobaith o godi'r cylchrediad i 6,000.

Erbyn 1990 doedd y sefyllfa ddim wedi gwella a gofynnwyd y cwestiwn 'A oes dyfodol i *Antur*?' Fel ymateb, trefnwyd casét Mr Antur gydag Arfon Wyn yn rhoi'r elw at gynnal *Antur*, ac fe gafwyd taith yn hybu'r casét a'r cylchgrawn. Ond ofer fu'r holl amryfal ymdrechion oherwydd mewn cyfarfod o'r Cyngor ym Mawrth 1992 nodwyd bod y Cyngor Llyfrau yn dirwyn y grant i ben a hynny oherwydd 'y gostyngiad cyson yn y cylchrediad', ac felly cytunwyd na ellid parhau i'w gyhoeddi ar ôl rhifyn Mehefin 1992.

Er gwaethaf yr anawsterau gyda chyhoeddi *Antur*, roedd awydd i gyhoeddi yn bodoli ac fel y crybwyllwyd uchod y llyfr cyntaf i'w gyhoeddi gan y Cyngor Ysgolion Sul oedd llyfr anrheg *Antur*; ei deitl oedd *Plis Mistar Robits! a thair stori antur arall*. Fe'i disgrifiwyd fel llyfr destlus o 184 o dudalennau a 30 o ddarluniau; argraffwyd 1,500 o gopïau a bu gwerthiant sydyn am 50c y copi. Yr awduron oedd Ifor Wyn Williams, Elfyn Pritchard, J. Selwyn Lloyd ac R. Emyr Jones, a'r darluniau gan Robin Griffith.

Yn yr un cyfarfod ag y penderfynwyd cyhoeddi *Plis Mistar Robits!* cytunwyd i gyhoeddi llyfryn o 25 o ganeuon poblogaidd dan ofal y Prifardd Dafydd Owen. Y gobaith oedd y gallai caneuon modern, newydd ddenu'r ifanc yn ôl i'r eglwys ac i'r ysgol Sul. Cyfaddasiadau Cymraeg o'r Saesneg oedd y rhan fwyaf o'r caneuon, ond roedd rhai gwreiddiol Cymraeg hefyd. *Diolch i Ti* oedd teitl y llyfryn ac argraffwyd 5,000 o gopïau yn 1971; erbyn Medi 1972 roedd galw am ail argraffiad. Felly, cafwyd llwyddiant ysgubol gyda'r mentrau cyhoeddi cyntaf.

Ym mis Ionawr 1978 cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod y posibilrwydd o gydweithio â Llyfrau'r Dryw ar argraffiad Cymraeg o *Hamlyn's Children's Bible*, sef *Beibl y Plant mewn Lliw*. Manteisiwyd ar y cyfle gan sicrhau dau argraffiad: un dan enw Llyfrau'r Dryw ar gyfer y fasnach gyffredinol, a'r llall mewn cloriau arbennig o dan enw'r Cyngor i ysgolion ac ysgolion Sul. Nodir ar ddiwedd cofnodion y cyfarfod fod y penderfyniad 'yn golygu ein bod yn derbyn her i gynnig i Gymru gyfrol eithriadol a all fod yn gyfrwng i ddwyn llaweroedd yn ôl at gyfoeth y Beibl ... gallwn gyflawni llawer a llwyddo i roi yn nwylo ein plant, yn eu hiaith, y gyfrol nodedig hon'.

Roedd yn ymgymeriad ariannol mawr i'r Cyngor ac ar y pryd y mwyaf erioed iddo – tua £20,000. Cytunwyd i argraffu 7,500 o gopïau'r Cyngor a bu ymdrech lwyddiannus iawn i gael archebion ymlaen llaw. Erbyn mis Mehefin roedd archebion gwerth £12,000 wedi'u derbyn, a'r arian hefyd. Dyma rai ffigyrau'r Mehefin hwnnw: Gwynedd, 800; Môn, 800; Dyfed, 1,700. Yn ychwanegol roedd tri awdurdod addysg wedi archebu copïau: Dyfed, 400; Gwynedd, 250; Powys, 200. Erbyn i'r cofnodion gael eu paratoi mae ôl-nodyn yn dweud bod nifer yr archebion wedi codi i 9,500 ac erbyn Medi yn 12,500. Cyflwynwyd *Beibl y Plant mewn Lliw* i'r genedl mewn cyfarfod arbennig ar 20 Medi gyda Chapel Seilo, Aberystwyth, yn rhwydd lawn.

Alan Llwyd oedd yn gyfrifol am y cyfieithu a mynegwyd hyfrydwch o'i glywed ef yn tystiolaethu i'r fendith a gafodd wrth gyflawni'r gwaith. Dyma englyn ganddo'n mynegi hynny:

A'r Gair a roes gyfeiriad – i ninnau

A'n hanunion rodiad;  
Y Gair oedd drugarhad,  
Y Gair oedd lawn o gariad.

Cytunwyd ar ail argraffiad o fersiwn y Cyngor (argraffiad yr ysgolion) – 5,000 arall ar ben y 12,500 o gopïau a werthwyd yn barod. Bu gwerthiant cyson, ac yn Eisteddfod Genedlaethol 1979 yng Nghaernarfon llwyfannwyd pasiant yn seiliedig ar *Y Beibl Lliw*, gyda'r sgript gan y Parchedigion Harri Parri a Gareth Maelor Jones. Cynhyrchwyd tâp fideo o'r pasiant, a dosbarthwyd casetiau i ysgolion. Maes o law bu trydydd argraffiad, ond mae'n bwysig sylweddoli mai fel arf cenhadu y gwelwyd y fenter fawr yma. Felly, nid oedd y Cyngor ar ei fantais yn ariannol o'r holl werthiant, ond cyflawnwyd y bwriad yn fwy na'r disgwyl. Llwyddiant ysgubol fu'r fenter fawr yma i'r Cyngor.

Menter gyhoeddi lwyddiannus arall yr ymgwymerwyd â hi yn 1981 oedd cyhoeddi Calendr Adfent yn y Gymraeg, mewn cydweithrediad â'r United Society for the Propagation of the Gospel. Llwy'r werthwyd y 3,000 o gopïau a argraffwyd, a gwnaed elw o dros £1,000 i'r Cyngor. Argraffwyd 3,500 o gopïau yn 1982, a chynigiwyd gwobr i'r ysgol ddyddiol a'r ysgol Sul a werthai'r nifer mwyaf. Gwobrwywyd Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon, ac Ysgol Sul Rhos-y-Gad, Llanfair Pwllgwyngyll. Felly y bu am rai blynyddoedd, ond fel gydag *Antur* cynyddodd y costau argraffu i'r fath raddau fel nad oedd yn ymarferol parhau â'r calendr. Ni chynhyrchwyd calendr yn 1987, ond awgrymwyd y gellid paratoi cardiau Nadolig, a maes o law daeth y rheini yn nodwedd gyson o gyhoeddiadau'r Cyngor.

Yn 1989 penodwyd Aled Davies yn Swyddog Datblygu'r Ysgolion Sul yn y Gogledd, ac fe sylweddolodd fod bwlch yn y maes cyhoeddi Cristnogol. Felly, aeth ati i weld sut y gellid llenwi'r bwlch hwnnw. Mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 18 Mawrth 1992, penderfynwyd bod y Cyngor yn dod yn gyhoeddwr o dan yr enw Cyhoeddiadau'r Gair. Canlyniad hyn oedd benthyciad ariannol gan y Cyngor Ysgolion Sul i sefydlu Cyhoeddiadau'r Gair.

Bu llwyddiant o'r dechrau a buan y talwyd y benthyciad yn ôl, a byth ers hynny mae Cyhoeddiadau'r Gair wedi sefyll ar ei draed ei hun yn ariannol. Ym mlwyddyn dathlu ei ben-blwydd yn ddeg oed yn unig, cyhoeddodd 100 o deitlau o'i adnoddau ei hun. Daeth Cyhoeddiadau'r Gair â dimensiwn newydd i fyd cyhoeddi llyfrau Cristnogol yn y Gymraeg, a chafwyd llu o deitlau safonol a deniadol mewn lliw llawn. Dyma'r wyrth mae Cyhoeddiadau'r Gair wedi'i chyflawni – gwrth a allai fod wedi'i chyflawni gan unrhyw wasg oedd yn bodoli, ond Aled gafodd y weledigaeth a'r ynni i'w chyflawni. Cychwynwyd y llwyddiant ysgubol gyda chyhoeddi'r ddau lyfr lliw llawn cyntaf: *Fy Meibl Cyntaf* a *Mari Jones*, ac ni phallodd ers hynny. Bu amrywiaeth mawr dros y blynyddoedd: llyfrau storïau Beiblaidd, llyfrau gweithgarwch, meysydd llafur yr ysgolion Sul, llyfrau defosiwn, llyfrau lliwio, llyfrau gweddio, yn ogystal â chasetiau fideo, crynoddisgiau a DVDs. Roedd rhai yn llyfrau bach ac eraill, megis *Llawlyfr y Beibl*, yn fawr ym mhob ystyr – o ran ei gyfraniad, ei safon a'i faint. Ac yn ystod 2014/15 gwelwyd cyhoeddi llyfrau eraill o'r un safon, sef *Gwlad y Beibl* a *Cydymaith Cryno i'r Beibl*.

Rhan annatod o'r llwyddiant oedd parodrwydd gweisg o'r tu allan i Gymru i gyhoeddi ar y cyd. Bu cyfraniad Angus Hudson yn bersonol ac fel cwmni yn allweddol o'r cychwyn, ac mae'n parhau hyd heddiw. Rhan o waith cenhadol a thystiolaeth Gristnogol y Cyngor Ysgolion Sul yw Cyhoeddiadau'r Gair, ac mae'n enghraifft o sut y gall llwyddiant ddeillio pan fo cydweithio yn digwydd. Yn ei hanfod, cydbwyllgor o'r pedwar enwad anghydfurfiol a'r Eglwys yng Nghymru yw'r Cyngor Ysgolion Sul. Mae wedi gweithio'n llwyddiannus ers hanner can mlynedd nid yn unig oherwydd bod y weledigaeth Gristnogol yn ein huno, ond hefyd yr iaith Gymraeg. Mae'n sialens i'r cyrff Cristnogol yng Nghymru ddefnyddio Cyhoeddiadau'r Gair yn y dyfodol fel modd o gyflawni prosiectau cydenwadol: mae'r gynrychiolaeth a'r peirianwaith yn eu lle i ddatblygu prosiectau, eu gweinyddu a'u cyhoeddi – a hynny heb ffurfio unrhyw bwyllgor ychwanegol.

Pan gofir bod 350 o deitlau wedi'u cyhoeddi yn ystod y deng mlynedd ers sefydlu Cyhoeddiadau'r Gair, a bod cant o deitlau newydd wedi'u lansio yn 2002, mae'r cydweithio wedi bod yn ddiarhebol. O'i roi mewn ffordd arall, roedd 500,000 (hanner miliwn) o lyfrau wedi'u hargraffu gan Gyhoeddiadau'r Gair erbyn diwedd eu degfed blwyddyn.

Mae cefnogaeth y Cyngor Llyfrau wedi bod yn allweddol iawn dros y blynyddoedd, a derbyniwyd grantiau cyhoeddi sylweddol (gweler Pennod 9). Ers pedair blynedd bellach derbyniwyd grant hefyd i gyflogi golygyddion llawrydd am nifer penodol o ddyddiau'r flwyddyn, ac mae hyn wedi bod yn gymorth arbennig gyda'r gwaith o olygu'r cyhoeddiadau.

Byddai rhestru holl gynnyrch Cyhoeddiadau'r Gair yn cymryd gormod o ofod yn y llyfr hwn, oherwydd erbyn hyn mae tua 750 o deitlau wedi'u cyhoeddi. Fel y cyfeiriwyd eisoes, ymhlith yr arlwy mae 'na ddewis eang o lyfrau defosiynol i oedolion, Beiblau lliw i blant, llyfrau darllen lliwgar a deniadol i blant, a nifer o lyfrau adnoddau i athrawon ysgol Sul. O'r rhain, mae dros 60 yn llyfrau defosiynol i gynorthwyo unigolion ac eglwysi. Yn ogystal â llyfrau, mae gan Gyhoeddiadau'r Gair ddewis o gryno-ddisgiau, DVDs a disgiau cyfrifiadurol ar gael erbyn hyn, sy'n rhan o'u gweledigaeth i gyhoeddi adnoddau digidol yn Gymraeg.

Yn sgil y cyhoeddi daeth cysodi, dylunio a marchnata yn fwy creiddiol hefyd. Roedd Uned Dyfed wedi bod yn gwerthu offer ers blynyddoedd, ond gyda dyfodiad Cyhoeddiadau'r Gair a chymaint o ddeunydd perthnasol i'w gynnig roedd angen marchnata nid yn unig drwy bresenoldeb mewn Eisteddfodau Cenedlaethol a chyrsgol Sul ond trwy amryfal ffyrdd eraill. Yn ystod y blynyddoedd o 1998 ymlaen cyflogwyd rhai megis Robin Jones, Elfed Hughes, Tudur Jones, Siôn Ifan, Deio Hughes, John Hughes, Ynyr Roberts a Dilys Parry i gyflawni'r elfennau yma o'r gwaith, gan weithio o'r siop yn y Ganolfan Addysg Grefyddol ym Mangor.

(Mae manylion yr holl gyhoeddiadau i'w gweld ar wefan Cyngor Ysgolion Sul Cymru: [www.ysgolsul.com](http://www.ysgolsul.com), ac os ewch i wefan [www.gwales.com](http://www.gwales.com), gallwch gael eu manylion yn y fan honno yn ogystal ag archebu copïau. Erbyn hefyd gellir prynu copïau electronig o amryw o'r llyfrau drwy fynd i'r 'siop' ar wefan [ysgolsul.com](http://ysgolsul.com).)

## **Cyngor Ysgolion Sul: Meysydd llafur a gwerslyfrau**

Yn ôl y ddogfen gyfreithiol, rhai o brif amcanion y Cyngor yw: hybu addysg Gristnogol; hyfforddi athrawon i gyflwyno addysg Gristnogol; cyhoeddi llenyddiaeth, llyfrau, pamffledi a chylchgronau i blant a phobl ieuainc Cymru, a hynny yn Gymraeg.

I gyfarfod â'r amcanion hyn, mae'r Cyngor o'r cychwyn wedi trefnu meysydd llafur ar gyfer pob oedran yn yr ysgol Sul. Cyhoeddwyd gwerslyfrau, llyfrau gweithgarwch a deunyddiau atodol amrywiol eraill ar hyd y blynyddoedd.

Cyfeiriwyd ym Mhennod 2 at waith arloesol Dan ac Elisabeth James, a'r modd y rhoddwyd patrwm newydd i waith yr ysgol Sul o ran methodoleg.

Dyma'r cyfnod pan welwyd hefyd weithgarwch brwdfrydig Ysgrifennydd y Cyngor, y Parch. J. Haines Davies, a fu'n ysgrifennydd o'r dechrau nes ei ymddeoliad yn 1986. Ni phallodd ei gefnogaeth na'i ddiddordeb yng

ngwaith yr ysgol Sul na'r Cyngor i'r diwedd, ac o 1993 hyd ei farwolaeth yn 2004 ef oedd Llywydd Anrhydeddus Cyngor yr Ysgolion Sul. Y geiriau sy'n dod yn syth i'r meddwl wrth sôn am weithgarwch Haines gyda'r Cyngor yw: arweinydd brwdfrydig; un yn dyfalbarhau; ysgogydd; perswadiwr; unigolyn cwbl ddidwyll; peiriant o ddyn – a dyna i chi 'Mr Ysgol Sul'.

Felly, gyda Haines yn gwthio a Dan ac Elisabeth yn ymateb, aed ymlaen o'r misolyn *Cyflwyno'r Gair* i ddarparu a chyhoeddi gwerslyfrau cyflawn.

Ymddangosodd y cyntaf o'r rhain, sef *Dysgu Byw*, ym Mawrth 1968. (Cafwyd ail argraffiad ym mis Medi 1968, trydydd argraffiad ym mis Gorffennaf 1969 a phedwerydd argraffiad ym mis Mai 1971.) Yn y rhagair, dywed Dan ac Elisabeth James fod y gwerslyfr hwn ar gyfer plant 8–11 oed yn seiliedig ar yr un egwyddorion â'r misolyn *Cyflwyno'r Gair*. Roedd pedair gwers ar gyfer pob mis (ar wahân i Hydref a Rhagfyr) a'r patrwm yn debyg o Sul i Sul: sgwrs; stori i'w darllen; gweithgarwch, a'r cyfan yn gorffen gyda chân, adnodau i'w dysgu neu weddi. Y deuddeg thema oedd: Iesu'r Cyfaill Gorau; Addoli; Dilyn Iesu; Yr Eglwys Dramor; Arfau'r Cristion; Y Beibl; Diolchgarwch; Plant Duw; Nadolig; Iechyd; Pwy yw fy Nghymydog?; Iesu a'u Gyfeillion.

Roedd ymrwymiad y Cyngor i gyflwyno'r neges mewn ffordd fwy cyfoes yn gyfryw fel y bu iddo, yn Ebrill 1968, fabwysiadu cynllun Maes Llafur i Blant 4–11 oed. Roedd tri ystod oedran: 4–6 oed, 6–8 ac 8–11, a chyhoeddwyd y deunydd, dan y teitlau *Dweud a Gwneud*; *Llaw a Llafar* a *Dysgu Byw*, ym mis Ionawr 1969. Roedd y bwriad yn glir, sef defnyddio themâu tebyg ar gyfer pob oedran fel bod y plant oedd yn defnyddio'r tri llyfr yn delio â'r un thema o Sul i Sul. Yn ychwanegol at werslyfr yr athro, roedd Llyfr Gweithgarwch ar gyfer y plentyn er mwyn pwysleisio bod gweithgarwch yn rhan annatod o'r dysgu ac y byddai'n ddolen gyswllt rhwng y capel a'r cartref. Dan ac Elisabeth James oedd yn gyfrifol am y gyfres, gyda Mrs Luned Tudno Jones yn paratoi'r llyfrau gweithgarwch a Gwasg Tŷ John Penry yn argraffu.

Daeth llyfr arall i athrawon y dosbarth 8–11 oed yn dilyn yn union yr un patrwm, sef *Dysgu'r Gair*. Roedd yn cynnwys rhagair gwerthfawr o 12 tudalen â'r penawdau: At yr Athrawon; Nodwedddion plentyn yn yr oed ...; Nodweddon yr Athro Da; Ffilmgell, Gwlanengell a Phypedgell; Addoliad yr Ysgol Sul; Ffurf yr Addoliad; Gweddi, Darlleniad ac Emyn; Addoliad yn y Dosbarthiadau; Amgylchedd; Sgriniau; Rhannu Eto; Dodrefn; Lliw; Yr ysgol Sul bach; Cyfathrach gyd-enwadol; *Family Grouping*; Perygl; Diffyg Adnoddau; Manteision. Byddai'n werth i lawer fynd yn ôl a darllen y cyfarwyddiadau hyn eto gan fod llawer ohonynt yn dal yn berthnasol iawn heddiw.

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer y rhai dros 11 oed yn dal dan ofal y Presbyteriaid, ond yn dilyn trafodaethau ym mis Medi 1971 pasiwyd y penderfyniad canlynol yn unfrydol: 'Bod Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn gyfrifol am yr oedran dros 11 oed ac o dan 20 oed o 1975 ymlaen.'

Ar ôl dechrau ar gynlluniau newydd roedd yn rhaid dal i symud ymlaen, ond gan fod awduron gwreiddiol yn y meysydd hyn yn brin yng Nghymru aed ymlaen i ymchwilio i'r hyn oedd yn cael ei gyhoeddi yn yr iaith Saesneg. Wedi ymchwilio a thrafod a chyfarfod, daethpwyd i gytundeb gydag Eglwys Bresbyteriaidd yr Alban i addasu deunydd a gyhoeddwyd ganddyn nhw yn 1970. Roedd y gyfres Albanaidd yn cynnwys pedair cyfrol: *Learning in the Church 1 & 2* i blant 8 a 9 oed, a *Sharing in the Church 1 & 2* ar gyfer plant 10 ac 11 oed. Fel y noda Dan Lynn James yn ei ragarweiniad i'r cyfrolau Cymraeg, bu'n rhaid cywasgu ac ailwampio gan fod ein hamodau a'n cefndir ni yng Nghymru yn wahanol i eiddo'r Alban. Felly, ym Medi 1976 cyhoeddwyd *Tyfu yn yr Eglwys – Llyfr Athro 1* ar gyfer plant 5–8 oed, addasiad Mrs Cynthia Saunders Davies wedi'i olygu gan Dan Lynn James. Roedd Llyfr Gweithgarwch hefyd, gydag arlunwaith gan yr Hybarch Tom Bayley Hughes, a gweddill y lluniau yn waith yr arlunydd gwreiddiol, Donald R. Murray. Yr un pryd cyhoeddwyd *Dysgu yn yr Eglwys – Llyfr Athro 1* ar gyfer plant 8–11 oed a'r Llyfr Gweithgarwch dan law Dan Lynn James, gyda'r arlunio gan y Chwaer Gwenffrwd. Ymhen y

flwyddyn cafwyd ail gyfrolau'r ddau deitl, y naill yng ngofal Eirlys Jones ac Elisabeth James a'r llall eto dan law Dan Lynn James, a chydnabyddir y Chwaer Gwenfryd fel arlunydd y Llyfr Gweithgarwch.

Dylid nodi hefyd nad anghofiwyd y rhai dan 5 oed gan i lyfr patrwm â'r teitl *I Blant Bychain* gael ei baratoi yn 1976 gan Elen Ogwen, gyda Cen Williams yn ei arlunio. Roedd deuddeg thema, a'r pwyslais ar greu murluniau oedd yn sbardun ar gyfer siarad a sgwrsio gyda'r plant. Yn dilyn hyn, ar gyfer yr un oedran, cyhoeddwyd *Storïau o'r Beibl i Blant Bach* yn 1978, addasiad gan Dan ac Elisabeth James o'r llyfr *Bible Storytime* gan yr IBRA. Roedd yn cynnwys 51 o storïau (15 o'r Hen Destament a'r gweddill o'r Testament Newydd) a'r bwriad oedd eu bod mewn iaith syml, ddealladwy, i'w darllen i blant dan 5 oed. Cynhwyswyd manylion ychwanegol mewn ambell stori i gyfoethogi'r cefndir. Y disgwyl oedd fod athrawon yn cynllunio gwersi o gwmpas y storïau, gan gynnwys gweithgareddau fyddai'n atgyfnerthu'r dweud neu'r darllen.

Yn yr un modd, dan olygyddiaeth Rheinallt Thomas, darparwyd deunyddiau i'r ieuenctid dros 11 oed. Ar gyfer Medi 1976 cyhoeddwyd dau werslyfr oedd yn addasiadau o ddeunydd Eglwys yr Alban; *Darganfod yn yr Eglwys* oedd teitl yr un ar gyfer y rhai 11–14 oed a *Datblygu yn yr Eglwys* ar gyfer y rhai 14–18 oed. Yma eto, roedd y dull o gyflwyno a'r gweithgarwch yn wahanol i'r hyn a gafwyd yn y gorffennol, gan hyderu y byddai'n gymorth i'r plant hefyd deimlo eu bod yn awr yn ieuenctid a bod trosglwyddo o'r gwersi i'r plant iau i'r gwersi'frau hyn yn rhwydd. Pwysleisiwyd y dylid parchu tair egwyddor sylfaenol: bod y deunydd yn blentyn ganolog, yn Feibl ganolog ac yn eglwys ganolog.

Pedair thema oedd yn y gyfrol gyntaf. Ateb y cwestiwn 'Pa mor wir yw stori'r Iesu?' a hynny drwy waith ditectif ar Efengyl Marc oedd y thema gyntaf, ac yn wir hanner gwaith y flwyddyn. Thema fer ar y Nadolig oedd yr ail, ac roedd y drydedd thema'n ystyried datblygiad bywyd, gydag ymgais i ddangos sut mae bywyd wedi datblygu a sut y gall ddal i ddatblygu ar gyfer yr unigolyn ac ar gyfer y byd. Roedd y bedwaredd thema yn cael ei chynnwys yn y ddau lyfr, yn ogystal â drama ar gyfer y Pasg ac iddi'r teitl 'Peilat ar Brawf'. Roedd pedair thema arall hefyd yn yr ail lyfr, sef: Dyn mewn Cymdeithas; Yr Iesu'n Fyw; Y Duw Byw; a'r Eglwys yn y Trydydd Byd. Eto derbyniwyd bod y gyfrol yn wahanol i'r rhai a ddarparwyd hyd at hynny ond mynegwyd y gobaith y byddai'r ieuenctid yn teimlo bod y themâu yn berthnasol i'w bywydau personol a'u bywyd eglwysig. Mae'r rhagymadrodd yn gryno ac yn ddadansoddol, ac yn parhau i fod gyfoes 30 mlynedd ar ôl ei gyhoeddi.

Roedd y ddarpariaeth i'r rhai dros 11 oed yn wahanol yn 1977, pryd y defnyddiwyd *Chwilota*, a oedd eisoes wedi'i gyhoeddi gan yr Eglwys yng Nghymru, ar gyfer y rhai 11–14 oed. Cynthia Davies a Huw John Hughes oedd yr addaswyr, ac roedd Llyfr Athro a Llyfr Gweithgarwch. Tair thema oedd ar gyfer y flwyddyn: Gofalu, Rhannu, a Helpu. Roedd canllawiau pendant sut i ddatblygu pob uned ym mhob thema, ac roedd addoliad yn gysylltiedig â phob gwrs. Cynhyrchwyd atodiad byr i'r llyfr gwreiddiol er mwyn ychwanegu ato a'i wneud yn fwy cydenwadol a chyfoes.

Ar gyfer 1978 cyfaddaswyd *Chwilota 2*, gyda Rheinallt Thomas (sef golygydd y Cyngor ar gyfer yr oedran 11–18) yn ymuno â Cynthia Davies a Huw John Hughes i sicrhau fersiwn Cymraeg o Lyfr yr Athro a'r Llyfr Gwaith. Y tair thema oedd: Gwneud, Dysgu Byw, a Chefnogi, a rhannwyd Llyfr yr Athro yn ddwy ran gyda'r gwersi yn Rhan I ac addoliad yn Rhan II. Rhoddwyd pwyslais ar yr angen am addoliad effeithiol yn yr ysgol Sul oherwydd mai yno yr oedd llawer yn cael profi addoli. Dywedwyd bod yn rhaid cymryd addoliad yr ysgol Sul o ddifri os oeddem am fagu aelodau addolgar ar gyfer oedfaon y dyfodol.

Ond yn 1977 cafwyd cyfrol hollol wreiddiol, wedi'i golygu gan Gwilym Arthur Jones, ar gyfer y rhai 14–18. Teitl y llyfr oedd *Nesáu at Dduw*, ac roedd yn cynnwys pymtheg trafodaeth ar gwestiynau allweddol; ar y diwedd roedd adran o dan y teitl 'Hogi'r meddwl', lle roedd cwestiynau i'w trafod a chyfeiriadaeth at lyfrau i'w darllen.

Ar gyfer y rhai 8–11 oed yn 1978/9 *Beibl y Plant mewn Lliw* oedd y maes llafur, gyda thaflen o ganllawiau arbennig wedi'i pharatoi gan y golygyddion. Ac ar gyfer yr ieuencid 14–18 oed cyhoeddwyd diweddariad o werslyfr y Parch. W. H. Pritchard, *Y Ffydd Heddiw*. Yn y cyfnod 1979/80 cafwyd ail gylch o'r cyfrolau *I Blant Bychain*, *Tyfu 1*, *Dysgu 1* a *Darganfod*, gyda *Cewri'r Ffydd* (John Tudno Williams) ar gyfer y rhai 14–18 oed. Yn 1980/81 bu ail gylch arall, sef *I Blant Bychain*, *Tyfu 2*, *Dysgu 2*, *Chwilota 1* a *Datblygu yn yr Eglwys*. Cylchdroi eto fu'r hanes yn 1981/2, gyda *Storiâu o'r Beibl i Blant Bach*, *Beibl Lliw y Plant*, *Chwilota 2*, ar rhai 14–18 oed yn gallu dewis unrhyw un o bedwar teitl y blynyddoedd cynt. Dyna fu'r patrwm wedyn tan 1985.

Yn 1982 ystyriwyd y cynlluniau ar gyfer 1985 ymlaen. Derbyniwyd cynllun gan y Dr Eifion Evans oedd yn gosod allan faes llafur Beibl-ganolog yn hytrach na dilyn themâu. Rhoddwyd lle i'r Nadolig a'r Pasg, ond nid i'r gwyliau eraill. Cytunwyd y byddai'r cyfrolau yn rhai cyfansawdd – yn cynnwys nodiadau'r athro, gwersi'r plant a defnyddiau gweithgarwch. Roedd pedwar llyfr i'w cyhoeddi bob blwyddyn am dair blynedd, ac yna i'w defnyddio mewn cylch wedyn dair gwaith. Cytunwyd ar Fwrdd Golygyddol ac amryw o awduron, a bod y cyhoeddi i'w rannu rhwng Gwasg Tŷ John Penry (5–8 oed ac 11–14 oed) a Gwasg Pantycelyn (dan 5, 8–11 oed a 14–18 oed). Enwyd y gyfres yn 'Cyfres y Gair': *Agor y Gair* (dan 5 oed), *Storiâu'r Gair* (5–8 oed), *Gwersi'r Gair* (8–11 oed) a *Grym y Gair* (11–14 oed).

Gan eu bod yn llyfrau cyfansawdd, daeth galwadau gan ysgolion Sul am daflenni gweithgarwch i'r plant. Camodd Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol i'r adwy a pharatowyd taflenni ar gyfer y pedwar oedran o 1985 ymlaen.

Ym Medi 1994 cafwyd cyfres newydd a enwyd yn 'Gyda'n Gilydd' ac eto newidiwyd y patrwm cyhoeddi. Cafwyd dau lyfr o wersi ysgol Sul, ond gyda phedwar llyfr gwaith ar gyfer yr oeddrannau gwahanol: *Enfys* (dan 5); *Sbloets* (5–7 oed), *Gôl* (7–11 oed) a *Stilio* (11–16). Roedd hwn yn gynllun oedd yn arwain y disgyblion drwy'r Beibl, mewn themâu diddorol a dealladwy, gyda phob oedran yn dilyn yr un thema, ar wahanol lefelau, am gyfnod o fis. Addasiad o *Learning Together* gan Undeb y Gair (Scripture Union) oedd hwn, ac roedd y rhai fu'n gyfrifol am addasu yn brofiadol iawn: Delyth Oswy oedd yn dethol y deunydd ac yn golygu'r gwaith, gyda'i chwaer Helen Oswy Roberts yn addasu ac Elisabeth James yn golygu'r testun a'r iaith.

Ar ôl naw mlynedd (yn 2003) cafwyd cyfres newydd arall, sef 'Ar y Ffordd'. Roedd hwn eto'n gynllun tair blynedd oedd yn cynnwys prif straeon y Beibl o Genesis i'r Actau, a chyfaddasiad y tro hwn o ddeunydd gwreiddiol TnT Ministries. Nodwyd mai manteision 'Ar y Ffordd' oedd fod deunydd i'w lungopio yn y Llyfr Athro; crefftau a gweithgareddau ar gyfer pob oed; gwybodaeth gefndir helaeth ar gyfer athrawon; gwersi amrywiol gyda dewis eang o storiâu; gweithgareddau, posau, crefftau a gemau. Elisabeth James oedd eto'n olygydd iaith ond roedd nifer sylweddol o addaswyr y tro hwn: Gareth Alban, Meirion Morris, Eiflyn Roberts, Thelma Gimblett, Tegid Roberts, Hawys Ll. Hughes, Hywel Edwards ac Emyr Gwyn Evans.

Yn 2007 torrwyd tir newydd am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer gyda chyhoeddi cyfres newydd sbon yn dwyn y teitl 'Golau ar y Gair'. Nid cyfaddasiad oedd y gyfres yma ond un cwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Roedd hyn yn bosib gan fod yr enwadau wedi cytuno i ariannu'r gwaith ychwanegol hwn. Roedd yr ad-drefnu (gweler Pennod 8) wedi rhoi i'r Cyngor batrwm o weithredu fesul panel. Un o'r panelau hyn oedd panel gwerslyfrau, gydag aelodau profiadol o bob enwad ymysg gweinidogaethu i blant. Paratowyd y

gwersi gan Sarah Morris (Llansannan bryd hynny) oedd yn brofiadol iawn o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul.

Yr hyn a geir o fewn y cynllun hwn yw cyfres o 40 o werslyfrau athro a CD-ROM ar storïau neu themâu arbennig, gyda phob llyfr yn cynnwys tair gwर्स ac un oedfa deulu – digon ar gyfer mis o waith. Yn ogystal â gwersi ar gyfer y gwahanol oedrannau, roedd deunydd ar gyfer plant ac ieuenctid yn gynwysedig yn y llyfrau fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo.

Parhaodd gwaith y Panel Gwerslyfrau a chynhyrchwyd cyfres newydd sbon o werslyfrau, sef 'Cyfres Stori Duw', oedd yn rhoi panorama o daith fawr stori Duw (2012). Cynllun o wersi ar gyfer dwy flynedd oedd hwn: roedd y flwyddyn gyntaf yn canolbwyntio ar yr Hen Destament, gan gyrraedd y Nadolig erbyn diwedd y flwyddyn, a'r ail flwyddyn yn canolbwyntio ar fywyd a dysgeidiaeth Iesu a chyffro'r Eglwys Fore.

Yn ychwanegol, roedd opsiwn hefyd i brynu Beiblau gweithgaredd ar gyfer yr oed cynradd, sef *Beibl Gweithgaredd y Plant Lleiaf* (i blant dan 7 oed) a *Beibl Gweithgaredd y Plant* (i blant dan 11 oed). Roedd dau Feibl lliw wedi cael eu paratoi hefyd ar gyfer cyflwyno'r stori gyfan, sef *Beibl Lliw Stori Duw* a *Beibl Bach Stori Duw*. Mae'r ddau Feibl arbennig yma'n cyflwyno'r stori eto fel un stori fawr, gan blethu a phontio holl storïau'r Beibl. Cyfrol arall sy'n rhan o'r cynllun yw *Oedfaon Stori Duw*, sef cyfrol o wasanaethau teuluol sy'n seiliedig ar ugain cyfnod yn hanes y Beibl. Mae *Stori Fawr Duw* hefyd yn gyfeirlyfr defnyddiol sy'n esbonio'r stori a'r daith, drwy gyfrwng mapiau a ffeithiau hanesyddol. Mae DVD ar gael hefyd, sef *DVD Stori Duw*, sy'n cynnwys 52 stori pum munud yn cael eu hadrodd gan Mici Plwm. Yn ogystal, paratowyd cyflwyniadau PowerPoint o 64 o brif storïau'r Beibl, fel ffordd arall o gyflwyno storïau'r *Beibl Bach i blant*. Ar gyfer ei arddangos fel adnodd gweledol ar wal yr ysgol Sul mae *Llinell Amser y Beibl*, sy'n cynnwys 16 panel lliwgar yn cynrychioli cyfnodau gwahanol yn hanes y Beibl.

Ar gyfer Medi 2014 cyhoeddwyd y cynllun 'Mosaig' (sy'n brosiect ar y cyd rhwng Cyngor yr Ysgolion Sul a Scripture Union Cymru) i'w ddefnyddio fel cyfres o werslyfrau am flwyddyn. Mae'r ddau lyfr, sef *Duw Gyda Ni* ac *Mae Duw yn Dda*, yn cynnwys rhyngddynt 24 o wersi ysgol Sul i blant 5–11 oed (gyda gweithgareddau ar gyfer yr oedran 2–14). Adnodd hyblyg wedi'i gynllunio ar ffurf rhaglen strwythuredig yw Mosaig, sydd hefyd ar gael yn Saesneg o dan y teitl *Mosaic*. Gellir lawrlwytho rhai adnoddau ychwanegol oddi ar wefan Light Live, sef [www.lightlive.org.uk](http://www.lightlive.org.uk).

Cyflwynir pedwar gweithgaredd fel patrymlun sylfaenol ar gyfer pob sesiwn: dull o ymchwilio i'r Beibl, ymateb ar ffurf addoliad, a dau ddewis sy'n helpu'r grŵp i gymhwyso dysgeidiaeth y Beibl ar gyfer eu bywydau eu hunain. Awgrymir tri syniad ymestynnol er mwyn rhoi gweithgareddau mwy penodol ar gyfer y plant iau (y rhai dan wyth oed, efallai) a phethau mwy heriol i blant hŷn eu gwneud (y rhai dros ddeg oed, efallai). Hefyd, ceir syniadau newydd ym mhob sesiwn ar gyfer y gyfres 'Adnod i'w dysgu a'i chofio', yn ogystal â gwasanaeth ar gyfer pob oed ar thema un o'r tair cyfres sydd yn y llyfr.

Erbyn Medi 2014 darparwyd dwy gyfrol ar gyfer plant dan 5 oed, sef *Beibl Bach Stori a Llun: Hen Destament* a *Beibl Bach Stori a Llun: Testament Newydd*. Mae'r ddwy gyfrol yn cynnwys 45 stori a llun yr un i gyd-fynd â *Beibl Newydd y Plant*. Ar gyfer rhai 11–16 cyhoeddwyd *Y Beibl mewn 25 cam*, sef cyfrol o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer ieuenctid.

Fel y gwelwyd uchod, roedd darpariaeth ar gyfer yr ieuenctid yn rhan annatod o'r cynlluniau o'r 1980au ymlaen, ond roedd yn rhaid gofalu am yr oedolion hefyd. Parhaodd y Presbyteriaid i ofalu am hyn am nifer o flynyddoedd



hyd y cytunwyd bod y Cyngor yn derbyn y cyfrifoldeb am hynny hefyd. Esboniadau traddodiadol oedd y patrwm ac fe barhawyd â hynny hyd at 1994 pryd y cyhoeddwyd yr esboniadau fel rhan o gynllun gwerslyfrau 'Gyda'n Gilydd'. Yn ei ragair i'r llyfr cyntaf yn y gyfres dywed yr awdur, Pryderi Llwyd Jones, mai 'llawlyfr, ac nid esboniad, yw'r gyfrol'.

Y datblygiad nesaf oedd cyhoeddi cyfres o esboniadau mewn cydweithrediad â Phwyllgor y Beibl Cymraeg Newydd, gan ddechrau yn y flwyddyn 2000. Golygydd y gyfres oedd yr Athro Gwilym H. Jones, a'r cynllun oedd cyhoeddi dau esboniad bob blwyddyn gan esbonio, mor syml ac uniongyrchol â phosibl, gynnwys llyfrau'r Beibl. Roedd yr awduron yn arbenigwyr yn eu maes o ran yr iaith wreiddiol yn ogystal â chefnidir hanesyddol a diwinyddol a thueddiadau esboniadaeth ysgolheigaidd y maes a drafodid. Er hwyluso gwaith dosbarthiadau ysgolion Sul, yn gyfochrog â'r esboniadau, cyhoeddwyd yr hyn a elwid yn Gydymaith, oedd yn nodi'r adrannau a ddewiswyd ar gyfer pob Sul o'r flwyddyn ynghyd â sylwadau byr ar bob adran, awgrym o'i harwyddocâd cyfoes ynghyd â'i neges a chwestiynau i'w trafod. Paratowyd y gyfres 'Cydymaith' gan nifer oedd yn cynnwys Huw John Hughes, John Owen, Elwyn Richards, Elfed ap Nefydd Roberts a John Rice Rowlands. (Gweler Atodiad 3 am Restr o Esboniadau Oedolion a gyhoeddwyd ers 1966 ynghyd â'u hawduron.)

Pan gyhoeddwyd 'Cyfres Stori Duw' yn 2012, roedd yr oedolion hefyd yn dilyn yr un trywydd am gyfnod o ddwy flynedd. Eto, roedd dau adnodd ar gael, sef addasiad Meirion Morris o lyfr John Stott, *Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn a Cydymaith Stori Duw* gan Huw John Hughes.

O fis Ionawr 2014 ymlaen cafwyd newid arall ym maes llafur yr oedolion er mwyn dilyn hanes bywyd a gweinidogaeth Iesu, gan ddefnyddio cyfres o gyfrolau gan Elfed ap Nefydd Roberts fel esboniadau, sef: *Dehongli'r Bregeth, Dehongli'r Gwyrthiau, Dehongli Bywyd Iesu a Dehongli'r Damhegion*.

Felly, gwelir bod y Cyngor, yn ystod hanner can mlynedd ei fodolaeth, wedi cyflawni'n anrhydeddus un o'r amcanion creiddiol ers ei sefydlu drwy hybu deunyddiau ar gyfer addysg Gristnogol, a hynny i bob oedran.